# Panel y Cadeiryddion

## Cofnodion (POC(2)-02-06)

### Dyddiad y cyfarfod: 7 Mawrth 2006
### Amser y cyfarfod: 17:30 - 18:15
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3 y Senedd

#### Aelodau'r Cynulliad oedd yn Bresennol

| Aelod y Cynulliad | Pwyllgor |
|---|---|
| Yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd (Cadeirydd) | |
| Rosemary Butler AC | Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon |
| Janice Gregory AC | Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Chris Gwyther AC | Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Ann Jones AC | Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Rhodri Glyn Thomas AC | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

#### Swyddogion oedd yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |
| Karin Phillips | Pennaeth Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau |
| Gwen Parry | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad |
| Peter Jones | Cwnsler i Bwllgorau'r Cynulliad |
| Adrian Green | Uwch Weithredwr Seneddol, Swyddfa'r Llywydd |
| Lara Date | Dirprwy Glerc |

| | |
|---|---|
| Anna Daniel | Pennaeth GSC, Swyddfa'r UE ym Mrwsel |

## Eitemau I'w Trafod

## Eitem 1: Cyflwyniad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar Gyfrifiad 2011

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Black AC, Glyn Davies AC, Janet Davies AC, Sandy Mewies AC a Gwenda Thomas AC.

1.2 Fe wnaeth Ian Cope a Ian White o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) gyflwyniad i'r Panel ar y paratoadau ar gyfer Cyfrifiad 2011. Byddai'r ONS yn cyhoeddi'r ymateb i'w hymgynghoriad y diwrnod canlynol. Y prif bwyntiau a nodwyd yn y drafodaeth oedd:

> Rhaid i eiriad cwestiynau'r cyfrifiad fod yn briodol, h.y. nid oedd gofyn am blant mewn "aelwydydd ble mae'r rhieni'n briod" yn adlewyrchu unedau teuluoedd fel y maent heddiw. Yr oedd profi ar raddfa fach yn digwydd i roi sylw i hyn.
>
> Yr oedd yr ONS yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac yn gwneud profion peilot mewn tair ardal gan gynnwys Sir Gaerfyrddin. Cynlluniwyd y profion i adnabod meysydd problemau posibl megis cyrraedd a chofnodi poblogaethau diflanedig a symudol iawn, gan gynnwys sipsiwn a theithwyr, ceiswyr lloches a'r digartref yn ogystal â'r rhai mewn tai symudol.
>
> Yr oedd ONS yn gweithio gydag awdurdodau lleol, yr Arolwg Ordnans a'r Gazeteer i wella cywirdeb cofnodion o gyfeiriadau.
>
> Y rhaglen i sicrhau fod poblogaethau du a rhai o leiafrifoedd ethnig sydd wedi'u cofrestru wedi'u lansio ynghynt nag ar gyfer y Cyfrifiad yn 2001 a 'roedd panel o gynrychiolwyr o gyrff cydraddoldeb allweddol wedi'u sefydlu i gysylltu â grwpiau ac i gynghori ar oresgyn unrhyw rwystrau i gofrestru. Pwysleisiodd y Panel bwysigrwydd sicrhau fod gwybodaeth esboniadol am y cyfrifiad ar gael mewn ieithoedd lleiafrifol hyd yn oed os nad oedd y ffurflen ar gael. Cadarnhaodd ONS y byddai gwybodaeth ar gael mewn o leiaf 26 o ieithoedd.
>
> Grwp arall anodd ei gyrraedd yr oedd ONS wedi'i ddynodi oedd dynion ifanc.
>
> Yr oedd rhaid i'r pwysau i gynnwys cwestiynau ychwanegol yng nghyfrifiad 2011 gael ei gydbwyso gyda chadw at fformat tair tudalen oherwydd goblygiadau ariannol ac i osgoi gwneud y ffurflen

yn faich i'r rhai sy'n ei llenwi. Y meysydd mwyaf dadleuol oedd sut yr oedd cwestiynau ar iaith, incwm ac ethnigrwydd i gael eu strwythuro, a beth y dylent ei gynnwys. Nododd Ian Cope y byddai'r ONS yn croesawu syniadau Aelodau'r Pwyllgor ar eu blaenoriaethau.

## Eitem 2: Craffu ar Ddeddfwriaeth UE

2.1 Ymunodd pennaeth swyddfa Undeb Ewropeaidd GSC â chyfarfod y Panel trwy gyfrwng cysylltiad fideo gynadledda o Frwsel. Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth y papur ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

2.2 Yr oedd papur tebyg wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar 18 Ionawr 2006. Yr oedd y protocol ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth UE wedi'i ddiwygio ychydig a gofynnwyd i'r Panel gytuno ar y protocol newydd. Atgoffwyd y Cadeiryddion am yr angen i ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol yn y Cynulliad i ofyn am ganlyniad cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion pan fo pynciau'n cael eu trafod nad oeddent wedi'u dynodi fel blaenoriaeth fawr i'r Pwyllgor, a hefyd i ofyn fod Memoranda Esboniadol perthnasol yn cael eu hychwanegu fel atodiad i bapurau'r pwyllgor. Yr oedd y Panel yn fodlon gyda'r protocol a chytunwyd ar yr argymhellion ym mharagraff 18 y papur.

Camau gweithredu: Pwyllgorau i barhau i ddefnyddio'r protocol ar gyfer craffu UE fel y diwygiwyd ac i weithredu'r argymhellion ym mharagraff 18 y papur POC(2)-02-06(p.5).

## Eitemau Busnes Rheolaidd

## Eitem 3: Nodyn o'r cyfarfod diwethaf ar 29 Tachwedd 2005

3.1 Cytunodd y Panel ar gofnodion y cyfarfod diwethaf ar gyfer eu cyhoeddi.

Camau Gweithredu: yr Ysgrifenyddiaeth i roi'r cofnodion ar y Rhyngrwyd.

## Eitem 4: Camau sy'n deillio

4.1 Nododd y Panel y camau oedd yn deillio o'r cyfarfod diwethaf.

## Eitem 5: Eitemau Cadeiryddion

5.1 Nododd y Panel y cynlluniau busnes ar gyfer teithio gan y Pwyllgorau Materion Ewropeaidd ac Allanol a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau cyhoeddus a oedd wedi'u cytuno y tu allan i'r Panel.

5.2 Nododd y Cadeirydd Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio fod cyflwyniad gan Gofalwyr yng Nghymru wedi codi sawl mater amrywiol, megis cyfleoedd cyflogaeth a rôl awdurdodau

lleol, ac anogodd Cadeiryddion Pwyllgorau eraill i ystyried ei gynnwys yn eu rhaglenni gwaith.

Camau Gweithredu: Clercod a Chadeiryddion Pwyllgorau i drafod cynnwys Gofalwyr yng Nghymru yn eu blaenraglenni gwaith.

## Eitemau I'w Nodi

### Eitem 6: Sylw gan y Cyfryngau i Bwyllgorau

6.1 Nododd y Panel y sylw gan y cyfryngau i Bwyllgorau yn ystod Ionawr a Chwefror.

### Eitem 7: Hynt a chraffu ar Fesurau sy’n berthnasol yn benodol i Gymru

7.1 Croesawodd y Panel yr adroddiad diweddaru ar gynnydd Mesurau trwy’r Senedd a’r ystyriaeth ohonynt gan Bwyllgorau’r Cynulliad.

7.2 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus fod yr ystyriaeth i’r Mesur Gweinyddu Etholiadol wedi’i frysio ac y dylid cyfleu neges yr anhawster i ateb cyfyngiadau amser yn yr amserlen ddeddfwriaethol.

7.3 Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus fod adroddiad ei phwyllgor hi ar y Gyfundrefn Arolygu a Rheoleiddio yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth pan mae’n craffu ar y Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheolaethol.

## Eitemau I'w Trafod

### Eitem 8: Gwasanaethau cysylltiedig â Phwyllgorau i’r Cyhoedd (Cwsmer Cudd)

8.1 Nododd y Panel y papur ar y prosiect cwsmer cudd.

### Eitem 9: Cyfarfodydd Pwyllgor yn y Senedd

9.1 Yr oedd rhai Cadeiryddion wedi mynegi ffafriaeth at eistedd yng nghanol y bwrdd yn ystafelloedd Pwyllgor y Senedd ond yr oedd i hyn oblygiadau o ran onglau’r camerâu statig. Hefyd yr oedd ffafriaeth tuag at fwrdd Pwyllgor o siâp mwy hirgrwn gan nad yw’r siâp presennol yn rhoi golygfa glir i rai sy’n cymryd rhan o eraill sy’n eistedd ar yr un ochr i’r bwrdd â hwy. Hefyd codwyd mater gweithredu’r bleindiau a’r goleuadau yn ystod cyfarfodydd.

Camau Gweithredu: (1) Y Panel i dderbyn adroddiad diweddaru ar faterion ymarferol yn ymwneud â chyfarfodydd Pwyllgorau yn y Senedd yn ei gyfarfod ar 4 Ebrill.

### Eitem 10: Adroddiad diweddaru ar Weithio ar y Cyd gyda’r Pwyllgor Materion Cymreig (WAC)

10.1 Nid oedd unrhyw faterion i’w nodi ar hyn o bryd gyda golwg ar weithio ar y cyd.

**Eitem 11: Unrhyw Fater Arall**

11. 1 Nododd y Panel y papur ar ddangosyddion perfformiad GSC ar gyfer mis Rhagfyr. Nid oedd unrhyw fater arall.

Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Mawrth 2006